

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



26 Chwefror 2015

Annwyl Mark,

Ymchwiliad dilynol i farw-enedigaethau yng Nghymru: y cynnydd a wnaed hyd yma

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ymrwymo i ddilyn y camau a gymerwyd i weithredu argymhellion sy'n deillio o'i ymchwiliadau craffu. I'r perwyl hwn, rhoddodd y Pwyllgor ei sylw'n ddiweddar i'r argymhellion a wnaed yn ei adroddiad ar [farw-enedigaethau yng Nghymru yn 2013](#).

Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am yr [adroddiad diweddar](#) a ddarparwyd gennych yn ystod yr hydref 2014. Mae'r Aelodau'n cydnabod y cynnydd a wnaed yn y 18 mis diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â sefydlu Rhwydwaith Mamolaeth i sicrhau bod gofal yn cael ei safoni ledled Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r gwaith a wnaed gan gomisiynwyr gwasanaethau a staff rheng flaen i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd fel rhan o'n hymchwiliad gwreiddiol.

Er ei fod yn cydnabod y gwelliannau a nodwyd yn eich adroddiad cynnydd, nododd y Pwyllgor eich datganiad a ddywedodd, "er gwaethaf y cynnydd a wnaed ar ymgysylltiad staff clinigol, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd i weithredu argymhellion y Pwyllgor yn llawn". Er mwyn llywio ystyriaeth y Pwyllgor o ble y mae argymhellion eto i gael eu cyflawni'n llawn, gwahoddodd

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6354

E-bost / Email: Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales

Trydar / Twitter: [@seneddiechyd](https://twitter.com/seneddiechyd) / [@seneddhealth](https://twitter.com/seneddhealth)


y Pwyllgor y rhai a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad gwreiddiol i roi eu [barn ar y cynnydd a wnaed hyd yma](#) ac ar ble y gall fod angen gwneud rhagor i sicrhau bod gwelliannau'n digwydd yn y maes hwn. Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniadau ysgrifenedig yn ystod mis Ionawr 2015, a hoffai nodi ei ddiolch i'r rhai a roddodd o'u hamser i gyfrannu at y darn pwysig hwn o waith dilynol.

Nodir barn y Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob argymhelliad yn Atodiad A i'r llythyr hwn. Nid yw'r llythyr yn ceisio gwneud unrhyw argymhellion pellach. Yn hytrach, ei ddiben yw sicrhau bod:

- y momentwm i leihau nifer y marw-enedigaethau yng Nghymru, fel y ceisiwyd ei gyflawni gan y Pwyllgor yn ei ymchwiliad gwreiddiol, yn cael ei gynnal; a
- y wybodaeth a gesglir fel rhan o'r ymchwiliad dilynol hwn yn llywio gwaith y Gweithgor Marw-enedigaethau Cenedlaethol, sydd i gael ei sefydlu yn ystod 2015 fel is-grŵp o'r Rhwydwaith Mamolaeth.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael ymateb maes o law.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

ATODIAD A

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi barn y Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed hyd yma i weithredu ei naw argymhelliad ar farw-enedigaethau yng Nghymru. Nid yw'n ceisio crynhoi'r dystiolaeth na'r ymatebion a gafwyd gan y Llywodraeth yn ystod yr ymchwiliad gwreiddiol na'r ymchwiliad dilynol, y gellir darllen pob un ohonynt yn llawn ar [wefan y Pwyllgor](#).

Argymhelliad 1: Roedd yr argymhelliad hwn yn nodi'r angen i ddatblygu negeseuon iechyd cyhoeddus ar farw-enedigaeth. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ac mae wedi cymryd rhan mewn proses o ddatblygu negeseuon iechyd cyhoeddus perthnasol a phriodol. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed eisoes yn y maes hwn, yn arbennig y gwaith sydd wedi'i wneud gan Sands ac eraill i ddatblygu dogfen gonsensws sy'n cynnwys negeseuon craidd ar farw-enedigaethau, nododd rhanddeiliaid fod diffyg eglurder ynglŷn â barn Llywodraeth Cymru ar y ddogfen, a'i chyflwyno yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid perthnasol i egluro'r sefyllfa.

Argymhelliad 2: Tynnodd yr argymhelliad hwn sylw at yr angen i wella'r dulliau o ledaenu negeseuon iechyd cyhoeddus, a derbyniwyd ef gan Lywodraeth Cymru. Er bod pwysigrwydd datblygu llyfrau a llenyddiaeth berthnasol i gyfleu gwybodaeth yn rhywbeth a gydnabuwyd, roedd dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu bod angen rhagor o waith eto, i sicrhau bod trafodaeth am farw-enedigaeth yn rhan arferol o'r sgwrs rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a darpar-rieni. Byddai eglurhad ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrrff proffesiynol a rheolwyr byrddau iechyd i sicrhau bod marw-enedigaeth yn dod yn rhan arferol o drafodaethau gyda darpar-rieni yn cael ei groesawu.

Argymhelliad 3: Cytunwyd ar yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ac roedd yn ceisio cyflawni dau beth:

- yn gyntaf, rhoi lle mwy amlwg i farw-enedigaethau mewn bydwreigiaeth a chwricwla hyfforddi obstetrig yng Nghymru; ac
- yn ail, trefniadau i fonitro ac adolygu cymhwysedd ac anghenion gweithwyr iechyd proffesiynol o ran hyfforddiant mewn perthynas â marw-enedigaethau.

Er bod adroddiad diweddar y Llywodraeth yn amlinellu beth sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â rhan gyntaf yr argymhelliad hwn, nid yw'n cyfeirio at yr ail bwynt. Hefyd, roedd rhywfaint o ansicrwydd ymhlith yr ymatebwyr o ran

gwaith dilynol y Pwyllgor ynghylch y cynnydd a wnaed o ran yr argymhelliad hwn. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am roi eglurhad pellach ar sut y mae'n gweithio gyda byrddau iechyd i adolygu anghenion hyfforddiant a chymhwysedd gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â marw-enedigaethau.

Argymhelliad 4: Mae'r argymhelliad hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gwmpasu ymarferoldeb sefydlu rhwydwaith mamolaeth er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei safoni yng Nghymru, a chytunwyd arno mewn egwyddor. Mae'r Pwyllgor yn canmol y cynnydd sylweddol a wnaed o ran yr argymhelliad hwn, ac yn croesawu'r ffaith bod rheolwr rhwydwaith ac arweinydd clinigol wedi'u penodi. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod disgwyl i'r Rhwydwaith Mamolaeth ymgymryd â llwyth gwaith sylweddol yn ei flwyddyn gyntaf, ac mae am gael sicrwydd y caiff y Rhwydwaith y cyfarpar digonol i sicrhau y bydd gwelliannau'n digwydd, o ran y gefnogaeth y mae'n ei gael gan Lywodraeth Cymru a chan sefydliadau ymchwil yng Nghymru. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am:

- pryd y bydd y Gweithgor Marw-enedigaethau Cenedlaethol yn cyfarfod;
- sut y caiff ei gynnydd ei fonitro; a gaiff cofnodion y Gweithgor eu cyhoeddi? ac
- ai un o'i swyddogaethau fydd casglu data ar farw-enedigaethau.

Argymhelliad 5: Roedd adroddiad gwreiddiol y Pwyllgor, a'r argymhelliad hwn, yn tynnu sylw at y risg cynyddol o farw-enedigaethau mewn menywod sydd wedi mynd heibio 42 wythnos o feichiogrwydd. Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad y dylid adolygu nifer y menywod yng Nghymru sy'n cael eu babanod yn hwyrach na 13 diwrnod wedi'r dyddiad y dylai'r babi gyrraedd, roedd ei hadroddiad diweddar yn cydnabod yr anhawster a gafwyd wrth geisio casglu'r data perthnasol. Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am y cysylltiad rhwng geni'n hwyr a mwy o berygl o farw-enedigaethau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd y Rhwydwaith Mamolaeth yn blaenoriaethu ei waith yn ôl yr adolygiad a argymhellir. Mae'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei fonitro'n ofalus i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 6: Codwyd pryder bod y gost o ddarparu ymgynghoriadau meddygaeth arbenigol y ffetws y tu allan i Gymru yn fwy na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth yng Nghymru yn ystod ymchwiliad gwreiddiol y Pwyllgor. Cytunodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor â'r argymhelliad y dylid ymchwilio i'r honiad hwn, ac y dylid archwilio'r cynnig i gomisiynu

gwasanaethau meddygaeth arbenigol y ffetws ar lefel drydyddol yn hytrach na lefel eilaidd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau sydd wedi eu cymryd i: ddatblygu manyleb gwasanaeth; sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn derbyn atgyfeiriadau gan fyrddau iechyd eraill; ac ail-hyfforddi meddygon ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd â diddordeb. Fodd bynnag, byddai cael rhagor o wybodaeth am sut y mae'r datblygiadau hyn yn mynd i'r afael ag anghenion menywod beichiog sy'n byw yng ngogledd neu ganolbarth Cymru yn cael ei groesawu.

Argymhelliad 7: Roedd rhan gyntaf argymhelliad gwreiddiol y Pwyllgor yn galw am gam i fabwysiadu safon genedlaethol ofynnol leiaf ar gyfer adolygu marwolaethau amenedigol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn canmol y gwaith sylweddol a wnaed gan Sands a'r Adran Iechyd i ddatblygu offeryn i'w ddefnyddio ar draws y DU, ac yn croesawu'r ffaith y caiff hwn ei ddatblygu fel rhan o raglen y Gweithgor Marw-enedigaethau Cenedlaethol. Roedd ail ran yr argymhelliad hwn yn annog y Llywodraeth i gostio archwiliad amenedigol cenedlaethol, a dod o hyd i ddull ehangach, mwy dychmygus i ariannu ymchwil feddygol ac ymchwil o'r math hwn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfranogiad Cymru yn yr adolygiad o farwolaethau amenedigol ledled y DU.

Argymhelliad 8: Roedd y gyfradd isel o archwiliadau post mortem ar gyfer babanod marw-anedig yn thema amlwg yn ymchwiliad gwreiddiol y Pwyllgor. Argymhellodd y Pwyllgor: bod gwell hyfforddiant yn cael ei roi i weithwyr iechyd proffesiynol am sut i drafod archwiliadau post-mortem â theuluoedd sy'n galaru; bod gwybodaeth well i rieni yn cael ei datblygu, er mwyn galluogi rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus; a bod asesiad yn cael ei wneud o ddigonolrwydd y gwasanaeth patholeg amenedigol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dystiolaeth bod gwaith wedi'i wneud i fynd i'r afael â phob un o'r materion hyn. Serch hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen rhagor o waith o hyd i leihau'r oedi i rieni wrth aros am adroddiadau post mortem eu babanod. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gall y cais am gyllid ychwanegol ar gyfer sesiynau patholeg amenedigol gyda meddygon ymgynghorol helpu i fynd i'r afael â'r oedi hwn. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i gadw gwyliadwriaeth agos yn hyn o beth. Os na chyflawnir amserlenni gwell yn ystod y chwe mis nesaf, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai cylch gorchwyl yr Is-grŵp Patholeg Amenedigol gael ei ymestyn i gynnwys gwaith ar sut y caiff adroddiadau post mortem eu dychwelyd i rieni.

Argymhelliad 9: Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad gwreiddiol y Pwyllgor yn dangos yn glir mai ychydig o waith ymchwil a oedd wedi'i ariannu nac wedi'i wneud i sefydlu beth yw achosion sylfaenol marw-enedigaethau. Er bod y Pwyllgor yn croesawu cyfranogiad rhai byrddau iechyd yn yr Astudiaeth Ymchwil AFFIRM yn yr Alban, nododd nad oedd pob bwrdd iechyd yn cymryd rhan. Yn ychwanegol, mae'n nodi bod yr Astudiaeth yn canolbwyntio ar sut y gall un o'r ffactorau risg o ran marw-enedigaethau, sef llai o symudiadau gan y ffetws, gael ei leihau, yn hytrach na beth yw achosion sylfaenol marw-enedigaethau. Mae'r Pwyllgor yn parhau i gredu bod angen rhagor o waith ymchwil yn y maes hwn.